**Astudiaeth Achos – Hawliau plant – Amanda Calloway, Gwarchodwr Plant Cofrestredig**

## Trosolwg o'r gwaith

Cynhyrchwyd yr astudiaeth achos hon gan PACEY Cymru fel rhan o becyn hyfforddi ehangach ar hawliau plant yn y blynyddoedd cynnar gan Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru.

## Gwybodaeth am y lleoliad

Mae Amanda Calloway wedi bod yn gweithio fel gwarchodwr plant cofrestredig yn Sir y Fflint ers 15 mlynedd, ac ar hyn o bryd mae'n gofalu am blant ifanc o 8 mis i 3 blwydd oed.

## Gwreiddio hawliau plant

*'Dylai hawliau plant fod yn greiddiol wrth gynllunio a chyflwyno gwasanaeth.'* Y Ffordd Gywir, Comisiynydd Plant Cymru: 2017.

Bu Amanda'n mynychu cwrs *Plant yng Nghymru* ar gyfranogiad a hawliau plant ym Mhrifysgol Glyndŵr yn 2011, ac ysbrydolodd hynny ei hymarfer mewn perthynas â hawliau plant a llywio datblygiad polisi hawliau plant a fu ar waith ers 10 mlynedd. Fel mae Amanda'n esbonio: "*Mae hawliau plant a chyfranogiad yn rhan annatod o bopeth rwy'n ei wneud. Mae gen i bolisïau a gweithdrefnau cadarn yn eu lle sy'n ddogfennau ymarferol, yn hytrach na dim ond hybu hawliau plant yn arwynebol.*"

## Cydraddoldeb a pheidio â chamwahaniaethu

*'Mae cydraddoldeb yn golygu trin pob plentyn yn deg, a rhoi cyfleoedd ac adnoddau iddyn nhw yn ôl eu hanghenion, mewn modd cyfartal ag eraill, gan sicrhau eu bod yn gallu datblygu hyd eithaf eu potensial'* Y Ffordd Gywir, Comisiynydd Plant Cymru: 2017.

"*Fy nod yw caniatáu i'm holl rai bychain fod yn rhan o bopeth rydyn ni'n ei wneud, os ydyn nhw'n dewis gwneud hynny*" Amanda Calloway, gwarchodwr plant cofrestredig.



Mae Amanda yn nodi rhwystrau i gyfranogiad ac yn ceisio ymdrin â nhw, er enghraifft, mae ystod eang o gyfleoedd chwarae llanast ar gael, y mae angen dillad priodol ar eu cyfer. "*Gall rhwystrau fod yn bellgyrhaeddol, ond mae rhywbeth mor syml â'r ffaith mod i'n darparu dillad gwrthsefyll dŵr ar gyfer bod tu allan yn golygu bod pob plentyn yn gallu cael mynediad i'r holl adnoddau, heb bryderu na fydd rhieni'n gallu fforddio'r eitemau, neu y gallen nhw anghofio dod â nhw, neu y bydd dillad yn cael eu strywa, a rhieni'n methu prynu rhai newydd. Mae'n fater o fod yn greadigol a sicrhau bod mesurau i weithio o amgylch unrhyw rwystrau sy'n codi.*"

## Cyfranogiad

*'I fi, rwy'n credu mai'r egwyddor sy'n goresgyn popeth arall yw mai'r plentyn sy'n ganolog i bopeth rwy'n ei wneud'* Amanda Calloway, gwarchodwr plant cofrestredig.

Oherwydd oedrannau'r plant mae Amanda'n gweithio gyda nhw, mae'n bwysig bod yn fedrus yn darllen ciwiau di-eiriau i gefnogi eu cyfranogiad. Mae Amanda'n esbonio ei fod yn bwysig meithrin perthynas dda gyda'r plant a rhoi sylw i'w ciwiau cyfathrebu er mwyn i'r plant deimlo eu bod yn weithredol, yn gallu gwneud dewisiadau a dylanwadu ar y gwasanaeth, a sbarduno'u dysgu eu hunain. Mae Amanda'n ymdrechu i weithio fel rhan o dîm gyda'r plant i ffurfio pob agwedd ar eu diwrnod. Mae'r dull gweithredu hwn yn galw am ymwybyddiaeth fanwl o'r plant unigol, a rhoi sylw iddynt, gan nodi eu dewisiadau, eu diddordebau a chiwiau cyfathrebu cynnil.



Yng nghyswllt dysgu a datblygu mae Amanda o blaid hawl y plentyn i chwarae a chymryd rhan yn weithredol wrth ffurfio'r dysgu. Yn hytrach na gosod tasgau a gweithgareddau gorfodol, defnyddir dull archwiliadol, mwy penagored.

*'Rwy'n credu bod dysgu yn broses weithredol a reolir gan y dysgwr, gyda chwilfrydedd yn gymhelliad. Nid fy rôl i yw cynnig fy syniadau i ynghylch canlyniadau a bennwyd ymlaen llaw; yn hytrach dylwn ddarparu amgylchedd galluogol, yn llawn adnoddau cyfoethog, sy'n rhoi cyfle i blentyn reoli ei chwarae ei hun.'* Amanda Calloway, gwarchodwr plant cofrestredig.

*'Mae perthnasoedd mor bwysig yng nghyswllt dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant. Rwy'n gweithio'n galed i feithrin perthynas gadarnhaol o'r ddeutu gyda rhieni, lle gall y ddwy ochr fod yn onest ac yn dryloyw. Mae grymuso plant i fod yn hyderus i wneud penderfyniadau wedi'i seilio ar berthynas dda rhwng y cartref a'r lleoliad.'* I gefnogi plant newydd i ymgartrefu yn y lleoliad, mae'r gofal yn adlewyrchu eu dewisiadau a'u profiadau unigol gartref. Er y gall casglu gwybodaeth ddigonol gan deulu cyn i blentyn gychwyn ymddangos yn elfennol, mae dyfnder yr wybodaeth hon yn gychwyn pwysig ar gyfer deall eu dewisiadau a'u cyfathrebu. *'Rwy'n bendant o'r farn mai'r rheswm pam y bu i blentyn newydd 18 mis oed ymgartrefu cystal yn ddiweddar yw'r ffaith bod ei Mam wedi dweud yn fanwl wrthyf fi beth mae hi'n hoffi ei wneud gartref, ac roeddwn i'n gallu efelychu hynny i'w helpu i bontio i'r lleoliad. Roedd ei Mam yn meddwl ei bod hi braidd yn ddwl yn dweud wrthyf fi bod y plentyn wrth ei bodd yn gwrando ar gân benodol gan Abba, ond mewn gwirionedd roedd y darn bach pitw yna o wybodaeth berthnasol dros ben yn golygu mod i'n deall am beth roedd hi'n gofyn, ac wedi gallu chwarae'r gân (droeon) yn ystod y sesiwn. Fyddwn i erioed wedi gallu gwybod am beth roedd hi'n gofyn ar sail ei cheisiadau geiriol heb y mewnbwn manwl a'r sgyrsiau roeddwn i wedi'u cael gyda'i mam.'* Rhoddodd y cychwyn cadarnhaol yma nid yn unig ymdeimlad gwirioneddol o berthyn ac elfennau cyfarwydd i'r plentyn ar hyd ei sesiwn gyntaf, ond hefyd dangosodd iddi ei bod yn gallu gwneud dewisiadau a dylanwadu ar y gwasanaeth.



Cynigir dewisiadau i'r plant ar draws pob agwedd ar y gwasanaeth, er enghraifft mynediad i ddewis o ystod o adnoddau penagored. Adeg prydau a byrbrydau, mae'r plant yn dewis eu platiau eu hunain, yn ogystal â'r bwyd maen nhw'n ei fwyta o ddetholiad iach a osodir ar y bwrdd, fel eu bod yn penderfynu beth i'w fwyta a faint ohono. Mae'r plant hefyd yn mwynhau dewis ble i fynd ar ddiwrnodau allan, ac mae'r plant iau wrth eu bodd yn dewis o blith lluniau o leoedd yr ymwelir â nhw'n gyson er mwyn bod yn rhan o'r penderfyniadau hyn.

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â PACEY Cymru trwy e-bostio paceycymru@pacey.org.uk.

Mae rhagor o wybodaeth ynghylch hawliau plant mewn perthynas â gofal plant a'r blynyddoedd cynnar ar gael ar ein gwefan www.pacey.org.uk